

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd Yr A494
(Rhwng Bethel a Glanyrafon,
Gwynedd) (Gwaharddiadau a
Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2024

The A494 Trunk Road (Between
Bethel and Glan Yr Afon,
Gwynedd) (Temporary Traffic
Prohibitions and Restriction) Order
2024

Gwnaed 19 Ionawr 2024

Made 19 January 2024

Yn dod i rym 25 Ionawr 2024

Coming into force 25 January 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A494 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited and restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Rhwng Bethel a Glanyrafon, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Ionawr 2024.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (Between Bethel and Glan Yr Afon, Gwynedd) (Temporary Traffic Prohibitions and Restriction) Order 2024 and this Order comes into force on 25 January 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw—

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 25 Ionawr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “darn o'r gefnffordd” (“*length of the trunk road*”) yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw sy'n ymestyn o bwynt 580 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd sirol y B4402 ger Bethel hyd at bwynt 1890 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd sirol y B4402, sy'n gyfagos i'r gilfan orllewinol yng Nghoedwig Llwyn Braich Ddu, ger Glanyrafon;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n cario llwyth sy'n lletach na 3.5 metr, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act(1) or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“length of the trunk road” (“*darn o'r gefnffordd*”) means that length of the A494 Dolgellau to South of Birkenhead trunk road that extends from a point 580 metres north-east of its junction with the B4402 county road near Bethel to a point 1890 metres north-east of its junction with the B4402 county road, which is adjacent to the western layby at Llwyn Braich Ddu Forest, near Glan yr Afon;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 00:01 hours on 25 January 2024 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions and restriction

3. No person may, during the works period, drive any vehicle bearing a load greater than 3.5 metres wide, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

Atal Dros Dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwys

7.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau na'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar ymwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

19 Ionawr 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road.

5. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road during such times as the restriction referred to in article 4 is in operation.

Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road are suspended during such times as the restriction specified in article 4 is in operation.

Application

7.—(1) The prohibitions and restriction in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Duration of this Order

8. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the

19 January 2024

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government